Bwletin Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych

Mai 2009 Rhifyn 27

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland
Stryd y Ffynnon
Rhuthun LL15 1AF

Ffôn: 01824 702441
Ffacs: 01824 705412

e.bost office@dvsc.co.uk

Newvol - Cwmni cyfyngedig drwy warant 3132487
Elusen Gofrestredig 1054322

Prif Swyddog Gweithredol
John Watkin

Uwch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Lindsay Haveland

Cartref newydd i Teleofal

Fe gynhaliodd Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych ddiwrnod lansio ar gyfer cyfleuster arddangos newydd Teleofal yng Ngorsaf Dân Cymunedol Y Rhyl ar Ebrill 20.
Mae Teleofal yn ystod o gyfarpar y gellir ei ddefnyddio i helpu pobl sy'n agored i niwed i aros yn saff yn hirach yn eu cartrefi eu hunain. Gall aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn dysgu am Teleofal ymweld â'r cyfleuster rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener i weld a phrofi'r cyfarpar drostynt eu hunain, a chael cyngor ar sut i ddefnyddio Teleofal i gyfarfod ag anghenion unigol.
Mae'r cyfleuster ar gael i Ddefnyddwyr Gwasanaeth, gofalwyr, ymarferwyr a darparwyr gofal i gyrchu gwybodaeth am y Gwasanaeth Teleofal. Mae'n gyfle i brofi a gweld yn uniongyrchol sut y gall Teleofal helpu pobl i aros mor annibynnol ag sydd bosib yn eu cartrefi eu hunain.
Mae Teleofal yn defnyddio synwyryddion a system larwm sy'n cael eu plygio i mewn i'r soced ffôn. Gall y synwyryddion sydd wedi eu gosod ddangos os oes yna broblem yn y tŷ fel croniad o nwy'n gollwng o bopty, llif oherwydd bod tapiau wedi eu gadael i redeg neu fod rhan o'r cartref yn rhy boeth (fel pe bai'r popty wedi ei adael ymlaen).
Gall ddangos hefyd os oes gan berson broblem, fel bod wedi cael codwm neu'n methu galw am help, neu'n methu codi o'r gwely oherwydd salwch.

Meddai Emily Jones-Davies, Rheolwr Prosiect Teleofal gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Sir Ddinbych: 'Mae'r cyfleuster newydd hwn yn ardderchog. Mae'n rhoi cyfle i bobl Sir Ddinbych weld cyfarpar Teleofal yn gweithio mewn sefyllfa gartref ac mae'n caniatáu iddyn nhw ei brofi i weld pa mor hawdd a syml ydyw i'w ddefnyddio cyn ei osod yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r staff yma'n barod iawn i ateb unrhyw gwestiynau fydd gan bobl.

Os hoffech wybod mwy am sut i dderbyn Teleofal ffoniwch y Tîm Cyswllt Cyntaf ar 01824 712900.

Llun(ch-dde): Tina Lee – Technegydd Telecare; Emily Jones-Davies – Rheolwr Prosiect Telecare; Cathy Curtis-Nelson – Rheolwr Gwasanaeth, Cyngor Sir Ddinbych

The following information is being circulated on behalf of the Alzheimer's Society - if you have any queries please contact the Society directly - the contact is louise.lakey@alzheimers.org.uk

Alzheimer's Society is exploring the quality of care that people receive for their dementia when they are admitted to hospital and the challenges that health care professionals face

They are asking people to share their experiences by filling out a questionnaire by the end of May 2009. They would like to hear from people with dementia and carers, nursing staff and nurse managers or ward managers. All information will be treated confidentially and you do not have to give your name.

Your views will be used to help ensure that people with dementia in a general hospital setting receive good quality care appropriate for both their physical and mental health needs and that professionals receive better training and support. The survey results will be published later in the year.

This questionnaire is particularly for:

* People who have current or recent experience (in the last two to three years) in England, Wales and Northern Ireland.

* Experiences on a general ward rather than accident and emergency, on an intensive care unit or with outpatients.

The questionnaire can be downloaded from the Society's website and returned to Louise Lakey by email at louise.lakey@alzheimers.org.uk or by posting it to: Louise Lakey, Devon House, 58 St Katharine's Way, London, E1W 1JX.

Alternatively, a copy of the questionnaire and a pre-paid envelope for returning it can be requested from Louise on 020 7423 3581 or louise.lakey@alzheimers.org.uk

For further information and the questionnaires please go to: www.alzheimers.org.uk/site/scripts/documents_info.php?documentID=934

Penodi Prif Weithredwr i'r Bwrdd Iechyd Lleol Newydd Penodwyd **Mrs. Mary Burrows** yn Brif Weithredwr newydd **Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr** yng Ngogledd Cymru, cyn sefydlu'r Bwrdd Iechyd Lleol newydd ym Mehefin. Daw'r Byrddau Iechyd Lleol yn llawn weithredol o 1 Hydref ymlaen. Cyn ymuno â GIG Cymru fel Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru yn 2007, bu Mrs Burrows yn gweithio yn yr Unol Daleithiau, Sawdi-arabia, Lloegr a Chymru, gan symud o faes gwasanaethau Patholeg i faes Rheoli Ansawdd a Diogelwch ac yna i swyddi Prif Weithredwr gyda Grŵp Gofal Sylfaenol ac Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol. Er 2007, mae Mrs Burrows wedi bod yn Brif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Cymru ac yn Gyfarwyddwr Pontio dros Ogledd Cymru. Bu hefyd yn aelod Anweithredol o Fwrdd Corfforaeth Datblygu Gorllewin Swydd Northampton. Mae ganddi Radd Meistr yn y Gyfraith ym Mhrifysgol Cymru, Caerdydd, enillodd radd MBA ym Mhrifysgol Caerlŷr ac yn 1996 rhoddwyd iddi MBE er anrhydedd am ei gwasanaeth i'r GIG. Bydd ei phrofiad ym meysydd iechyd cyhoeddus, gofal sylfaenol, eilaidd a thrydyddol, ynghyd â'i phrofiad yn y sector preifat ac mewn llywodraeth leol yn y DU a thu hwnt yn dod â gwedd a dysg newydd i'r Bwrdd Iechyd.

Hyfforddiant MIND Dyffryn Clwyd
Mai - Gorffennaf 2009

Hyfforddiant ASIST Cost: £150 - £50 os heb gyflog	
13 a 14 Mai	**Corwen**
22 a 23 Mehefin	**Glasdir, Llanrwst**

Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl Cost: £100 Statudol £75 Gwirfoddol	
21 a 22 Mai	**Corwen**
11 a 12 Mehefin	**Eirianfa Dinbych**

I sicrhau eich lle neu i gael manylion pellach cysylltwch â :-
Carol Evans, Rheolwr, Mind Dyffryn Clwyd, Gwasanaeth Gwledig Allanol , 4 Lôn Rosemary, Dinbych LL16 3TT Ffôn: 01745 812461 **Ebost: mindrural@aol.com**

Am ragor o fanylion am y cyrsiau gwelir www.valeofclwydmind.org.uk am ASIST neu www.mhfa-wales.org.uk am Gymorth Cyntaf Iechyd Meddwl

Chi all ddechrau'r newid
Rydym i gyd yn poeni am y materion sy'n wynebu ein cymunedau. Rydym i gyd yn chwilio am ffyrdd i'n lleisiau gael eu clywed boed hynny yng nghyswllt cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc, helpu busnesau bach i ffynnu, neu helpu i gadw ein hamgylchedd yn lân. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn galw ar bobl ym mhob cymuned i wneud yn siŵr eu bod wedi cofrestru i bleidleisio i helpu i wneud y penderfyniadau sy'n cyfrif.

Er mwyn paratoi ar gyfer etholiadau Senedd Ewrop ar 4 Mehefin 2009, mae'r Comisiwn Etholiadol yn rhedeg wythnos 'Cofrestru i Bleidleisio' (4-10 Mai) i annog pawb i wneud yn siŵr eu bod ar y gofrestr etholiadol. 19 Mai yw'r dyddiad olaf y cewch chi gofrestru ar gyfer yr etholiad. Mae'n hawdd iawn cofrestru i bleidleisio. Ewch i www.aboutmyvote.co.uk argraffu'r ffurflen a'i llenwi, wedyn ei hanfon at eich Swyddog Cofrestru Etholiadol lleol; dim ond ychydig o funudau y bydd yn ei gymryd. **Chewch chi ddim pleidleisio os nad ydych chi wedi cofrestru!**

Drinkaware
Mae grantiau rhwng £2,000 a £100,000 ar gael ar gyfer prosiectau sy'n mynd i'r afael â chamddefnyddio alcohol. Mae mudiadau sy'n gweithio gyda phobl ifanc dan 18 oed yn gymwys i wneud cais. Rhagor o fanylion ar gael www.drinkaware.co.uk.

Mae Fforwm Anabledd Sir Ddinbych eisiau gwared ag offer dros ben. Mae'r offer yn cynnwys dolen anwythol symudol, OHP ayb… Am ragor o fanylion cysylltwch â Stephen Tilston, Gwasanaeth Eiddo, Cyngor Sir Ddinbych. Ffôn: 01824 706928. E. bost: steve.tilston@sirddinbych.gov.uk

YMGYNGHORIADAU CYFOES

Triniaeth a gofal diwedd oes: arferion da wrth wneud penderfyniadau - ymgynghoriad ar y canllawiau i feddygon (Fersiwn Gymraeg ar gael ar gais) Mae'r ddogfen hon yn diweddaru ac yn adeiladu ar y canllawiau presennol 'Atal neu dynnu'n ôl triniaeth ymestyn bywyd (*Withholding and withdrawing life-prolonging treatments*), ond hefyd yn cynnig cyngor mwy cyffredinol ar ofal diwedd oes, gan gynnwys materion megis cynllunio gofal ymlaen llaw, gofal lliniarol, materion yn ymwneud â phrofedigaeth a thrafodaethau ynglŷn â rhoi organau. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **13 Gorffennaf 2009** http://www.gmc-uk.org/end_of_life_care/

Cynigion ar gyfer dyfodol gwasanaethau arbenigol a thrydyddol
Mae'r Papur Ymgynghori hwn yn rhoi manylion ynghylch dyfodol arfaethedig gwasanaethau arbenigol a thrydyddol yng Nghymru. Mae'n ategu'r cynnig y dylai saith bwrdd iechyd lleol Cymru fod yn gyfrifol am gynllunio, ariannu, dylunio, datblygu gwasanaethau gofal sylfaenol, cymunedol, gwasanaethau gofal mewn ysbyty a gwasanaethau arbenigol a thrydyddol, ac am sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu darparu ar gyfer dinasyddion yn yr ardaloedd lle maent yn byw. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **19 Mehefin 2009**. http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/specialisedservices/?lang=en

Cynllun gweithredu arfaethedig ar gyfer Cymru ynghylch hepatitis a gludir yn y gwaed 2009-2014
Nod y cynllun gweithredu arfaethedig ynghylch hepatitis a gludir yn y gwaed yw darparu amserlen glir ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau allweddol yng Nghymru a fydd yn: lleihau nifer yr achosion o'r haint hepatitis a gludir yn y gwaed a drosglwyddir yng Nghymru; lleihau nifer y bobl nas diagnosir â'r haint; gwella'r ddarpariaeth o driniaethau a chymorth ar gyfer unigolion a gaiff eu heintio; a monitro a gwerthuso rhaglenni triniaeth a rhaglenni atal. Y dyddiad cau ar gyfer ymatebion yw **22 Gorffennaf 2009**. http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/blood/?lang=en

Rheoli absenoldeb

18 Mehefin 2009, Wrecsam

Gall lefelau uchel o absenoldeb fod yn broblem ddifrifol i sefydliadau bach a mawr. Bydd rhywfaint o absenoldeb ym mhob sefydliad ond mae lefelau uchel a rheolaidd o absenoldeb yn gostus i'r sefydliadau unigol ac i'r economi yn ei chyfanrwydd a chant effaith andwyol ar effeithlonrwydd, cynhyrchiant, proffidioldeb a moral. Gall lefelau uchel o absenoldeb a bodyn hwyr ddigwydd o ganlyniad i achos penodol ond gallant fod yn arwydd o broblemau mwy sylfaenol o fewn sefydliadau. Os hoffech ddod i un o'r gweithdai ffoniwch ein Acas Wales tîm digwyddiadau ar 08457 38 37 36 neu ebostiwch events@acas.org.uk, el arall gallwch gadw lle ar-lein yn www.acas.org.uk/training

Shelter Cymru

HAWLIAU TENANTIAID
CYFLE I OFYN CWESTIYNAU
yn

SWYDDFEYDD Y CYNGOR
64 FFORDD BRIGHTON
Y RHYL
BOB DYDD IAU, 2PM – 5 PM
FFONIWCH 01824 712930
I DREFNU AMSER NEU I SIARAD HEFO SWYDDOG DEWISIADAU TAI.

CEWCH GYNGOR ARBENIGOL AR:
ATGYWEIRIADAU - TENANTIAETH
DIOGELWCH - RHYBUDD GADAEL
TREFNIADAU MEDDIANNU - DYLEDION

Mae 2009 yn Flwyddyn Jiwbilî Gofal Profedigaeth Cruse ag yn ystod y flwyddyn byddant yn cynnal llawer o weithgareddau i godi ymwybyddiaeth ag arian -

Gweithgaredd Jiwbilî
Bydd Cruse yn cynnal Bore Coffi Masnach Deg ar 22 Mai yn Eglwys Bresbyteraidd, Ffordd Nant Hall, Prestatyn o 10am- 12.30pm

Cynhelir Cyfarfod Blynyddol Cruse Gogledd Cymru yng Nghonwy ar **11eg Mehefin** ag ar Fedi 30 ym Mae Colwyn ni fydd gwesteiwyr ein **Cynhadledd Profedigaeth** gyntaf yng Ngogledd Cymru.

Mehefin 13eg Taith gerdded 10milltir **Llangollen**

Medi 5ed
Bydd Cruse yn trefnu dwy daith gerdded coffa/noddedig yn Erddig Wrecsam - un daith dwy filltir, addas i gadeiriau olwyn a phramiau, ar hyd glan yr afon, a'r llall yn fwy addas i gerddwyr profiadol - 5.5 milltir! dilyn y teithiau cerdded yn y bore bydd picnic a gweithgareddau eraill fydd yn cynnwys ras hwyaid, band drymiau, gweithdai i'r plant a chastell neidio. Ar ddiwedd y dydd byddwn yn gollwng balŵns er cof am rywun arbennig.

Gobeithir cynnal **Gwasanaeth Coffa/Carolau ar 5ed Rhagfyr** yn ystod y prynhawn unai yng **Nghadeirlan Llanelwy neu'r Eglwys Farmor**. Mae gennym wasanaeth arall ar y gweill yn **Eglwys y Drindod, Stryd Mostyn, Llandudno ar 12 fed Rhagfyr** 2pm-4pm

Syniadau Crefft
Mae Gweinyddwraig Cruse yn gwneud cardiau cyfarchion gwerth i'w gweld ag yn cynnig cynnal gweithdai i grwpiau sydd â diddordeb mewn gwneud cardiau. Mae Cruse yn gwerthu'r cardiau i godi arian. Mae'n ffordd dda i fod yn greadigol a chymdeithasol ag ar yr un pryd godi arian i'ch hoff elusen.

Cefnogaeth Grŵp
Mae Cruse yn darparu hyfforddiant ar sgiliau gwrando a sgiliau hwyluso grŵp ag yn gallu hyfforddi pobl sydd â diddordeb mewn rhedeg grwpiau cefnogaeth/cymdeithasol i rai mewn profedigaeth. Mae Cruse yn awyddus i ehangu'r ddarpariaeth ag yn gallu helpu i sefydlu grwpiau. Os ydych yn ymwneud â Chanolfan Gymunedol neu Neuadd Eglwys ag yn awyddus i weld grŵp cymdeithasol/cefnogaeth profedigaeth yn weithredol yn eich ardal cysylltwch â Cruse.
Cynhelir Cwrs Hyfforddiant Undydd ar yr uchod ddiwedd mis Mai. Mae'n hyfforddiant generig ag oherwydd, yn addas a defnyddiol i unrhyw un sy'n rhedeg grŵp.

Grwpiau Profedigaeth Cruse yn Sir Ddinbych
Y Rhyl Eglwys Gatholig y Santes Fair, Ffordd Wellington - agored i bawb - cyfle cymdeithasu da, tripiau, cinio Nadolig, siaradwyr gwadd ayb Cyswllt - Margaret Jones 01745 337331Sul ola'r mis am3pm
Eglwys Ddiwygiedig Unedig, Stryd y Twr, **Y Rhyl** - dydd Gwener ola'r mis 2pm - 4pm Joyce Challis 01745 338747
Prestatyn - Eglwys y Drindod, Ffordd Gronant, Prestatyn dydd Mawrth ola'r mis 2pm- 4pm.Rigby 01745 853483
Abergele Cefnogaeth Profedigaeth
Mae'r plwyf yn cynnig cefnogaeth i bobl leol sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar. Mae'r gefnogaeth yn cynnwys y **Grŵp *T***. Mae'r **Grŵp** yn cyfarfod ar yr ail ddydd Mercher o'r mis yn Eglwys Sant Mihangel **ar yr ail ddydd Mercher o'r mis** o **3.00pm - 4.00pm**. Trefnir cyfarfodydd y Grŵp gan rai sydd wedi dioddef profedigaeth eu hunain. Mae'n gyfle gwych i rannu profiadau hapus neu drist, mewn awyrgylch anffurfiol dros baned a bisged- cludiant ar gael.
Mae croeso i unrhyw un sydd wedi cael profedigaeth fynychu'r grwpiau hyn gellir dod a ffrind, cymydog neu berthynas gyda chi - nid oes raid gwneud unrhyw drefniadau ymlaen llaw. Sefydlwyd y grwpiau er mwyn rhoi cefnogaeth i'r naill a'r llall- nid oes naws grefyddol i'r cyfarfodydd.
Ffrindiau Trugarog - Y Ganolfan Gymunedol, Stryd y Llywodraeth **Rhuddlan** - Nos Iau ola'r mis pm-10pmunrhyw un sydd wedi colli plentyn - croeso i deidiau a neiniau hefyd. Cysylltwch â Joan ar 01745 590200

Anghenion Cruse
Oes gan unrhyw un ystafelloedd cwnsela yn Sir Ddinbych er mwyn i Cruse allu darparu gofal un ar un am oddeutu awr yr wythnos? Mae Cruse angen swyddfa yn Sir Ddinbych. All unrhyw un helpu?

Am ragor o wybodaeth am unrhyw beth sy'n ymwneud â Cruse cysylltwch â nhw ar:08445 617 neu e.bost crusenorthwales@btconnect.com

Angen Teuluoedd Lleol!

Yn ystod Pythefnos Gofal Maeth, 11-24 Mai, bydd Cyngor Sir Ddinbych yn annog trigolion lleol i fynnu rhagor o wybodaeth am ofal maeth i helpu i gadw plant yn eu cymunedau lleol.
Ar hyn o bryd mae nifer o blant o bob oed yn Sir Ddinbych yn aros am gartref sefydlog mewn awyrgylch teuluol.
Yn aml iawn mae gofal maeth yn drefniant dros dro, ac mae angen gofalwyr mewn trefi a phentrefi ar draws y sir.
Nid oes wahaniaeth os ydych yn sengl, yn briod neu'n cyd-fyw fel cwpl, yn rhentu neu'n berchen eich cartref. Beth sydd yn bwysig yw'r gallu i roi cartref i blentyn. Cynigir cefnogaeth, cyngor a hyfforddiant i ofalwyr ac fe fyddwch yn derbyn lwfans wythnosol. Gan fod maethu yn llawer mwy na bod yn rhiant yn unig byddwch yn debygol o orfod wynebu sefyllfaoedd sy'n anghyfarwydd neu'n anodd. Ni fyddwch yn cael eich gadael ar eich pen eich hun i ymdopi. Byddwch yn rhan o'r tîm proffesiynol ehangach sy'n gyfrifol am edrych ar ôl plant syn cael eu lleoli â chi. Yn ogystal, byddwch yn yn derbyn cefnogaeth ariannol a hyfforddiant.
Os oes gennych ddiddordeb mewn gwybod mwy: · Cysylltwch â'r Tîm LLeoli Teulu ar **0800 7313215** am becyn gwybodaeth.
neu
· Ymunwch â'r sesiwn 'drop-in' dydd Llun, 18 Mai, 9am-5pm yn Ffordd Brighton, Y Rhyl am sgwrs anffurfiol a chyfarfod ag aelodau'r Tîm lleoli a rhai sy'n rieni maeth ar hyn o bryd.

Shelter Cymru

Mae Shelter Cymru'n gwahodd ceisiadau ar gyfer Gwobr Digartrefedd Val Feld am eleni. Val Feld oedd cyfarwyddwraig gyntaf Shelter Cymru a gweithiodd yn ddiflino i wella bywydau menywod yng Nghymru.

Diben gwobr 2009 yw cydnabod arloesedd a ffyrdd newydd o ymateb i ddigartrefedd, boed hynny gan unigolyn neu gan brosiect yn gweithio yng Nghymru. Eleni rydym hefyd yn cynnwys ceisiadau gan unigolion, neu sefydliadau sy'n dymuno ymchwilio i faterion yn ymwneud â menywod, tai a digartrefedd; neu sydd am gynorthwyo i sefydlu prosiect newydd; neu i ddatblygu prosiect sydd wedi ei brofi'n barod.

Bydd yr enillydd yn derbyn siec am £3,000 a cherflun efydd wedi'i gomisiynu'n arbennig gan yr artist o Abertawe, Helen Sinclair. Cyflwynir y wobr yn eu Cynhadledd Flynyddol ar ddydd Gwener, Mehefin 26ain, yng Ngwesty'r Village, Abertawe. Enillwyr blaenorol y wobr hon oedd Prosiect Menywod Ifanc Wrecsam (Cymdeithas Tai Hafan) yn 2005.

Gallwch gael ffurflen gais a nodiadau cyfarwyddyd cynhwysfawr drwy gysylltu â Mel Evans 01792 483072 neu drwy ymweld â'r wefan: www.sheltercymru.org.uk. Os ydych yn ansicr ynglyn â gwneud cais, mae croeso i chi gysylltu â Mel Evans er mwyn trafod y meini prawf.

Sut mae pethau'n mynd?

Yng Nghyfarfod Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ar 8fed Ebrill edrychwyd ar ffyrdd i fonitro a gwerthuso gwasanaethau mudiadau'r trydydd sector. Rhoddodd Dave Worrall, o'r Groes Goch Brydeinig gyflwyniad byr ar y teclyn monitro "Recovery Star", sydd o dan arweiniad Fforwm Darparwyr Iechyd Meddwl yn Lloegr. Mae hawl i ni ddefnyddio'r teclyn cyn belled nag ydyw'n cael ei ddefnyddio i ddibenion masnachol. Er hyn, os yw'n cael ei ddefnyddio gyda defnyddwyr gwasanaethau Iechyd Meddwl rhai peidio altro'r pecyn mewn unrhyw fodd. Gellir gweld copi o'r "Recovery Star" drwy ddefnyddio Google neu drwy gysylltu â Lindsay Haveland (CGGSDd). Mae hanes y llwyddiannau wedi'u cofnodi'n dda ag yn dangos ansawdd y gwaith a wneir, nid yn unig y nifer o bobl neu'r prosiectau.

Siaradodd Andrea Fisher (Cyngor Sir Ddinbych) am y Cynllun House Proud, sy'n helpu trigolion sydd angen addasiadau neu atgyweiriadau i'w tai i ddod o hyd i weithwyr ag i gael yr arian at ei gilydd, efallai mewn grantiau, i dalu am y gwaith.

Bydd cyfarfod nesaf y Rhwydwaith ar 1af Orffennaf yn edrych ar wledigrwydd. Bydd hyn yn cyd-fynd â'r ymgynghoriad ar Strategaeth Iechyd Gwledig, fydd yn dod i ben ar 21ain Awst. Mae'r strategaeth i'w weld ar ein gwefan neu byddai Lindsay'n falch o yrru copi allan .

CYFARFOD NESAF : Edrychwn ymlaen at eich gweld am **10.15 dydd Mercher, 1af o Orffennaf yng Nghanolfan Naylor Leyland.**

Ffoniwch JoAnne Williamson ar 01824 702441 i sicrhau eich lle a chinio.

Strategaeth Glinigol Gogledd Cymru

Mae'r gwaith ar droed ar y trosiant i'r Bwrdd Iechyd Lleol newydd i Ogledd Cymru.

Gofynnwyd i'r chwe Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol enwebu 12 o bobl i fod yn rhan o grwpiau Cyfeirio i sicrhau trawsnewid llyfn i'r Bwrdd Iechyd Lleol newydd, ag i ofalu am les defnyddwyr gwasanaethau a staff sy'n gweithio mewn iechyd a gofal cymdeithasol. Mae llefydd ar gael ar y grwpiau os oes gan unrhyw un ddiddordeb.

Mae tri thîm prosiect wedi'u sefydlu i edrych ar Ofal (argyfwng) heb ei drefnu, Iechyd Meddwl a Gofal Cychwynnol a Chymunedol. Mae tîm ar gyfer pob prosiect yn edrych ar y ddarpariaeth bresennol, os yw'n ddigonol, beth arall ddylid ei ddarparu, a sut mae sicrhau nad yw triniaeth a gofal ar draws Gogledd Cymru yn loteri côd post. Ymgymerir â'r gwaith mewn tri chyfnod o 30 diwrnod, gyda phythefnos i drafod syniadau'r timau.

Os oes gennych ddiddordeb mewn cyfrannu i'r trafodaethau, neu'n dymuno codi unrhyw bryderon cysylltwch â, Lindsay Haveland, neu ymwelwch â'r wefan, lle gwelir yr holl ddogfennau, trafodaethau ag argymhellion.

www.wales.nhs.uk/NorthWalesCLinicalServicesStrategy

Cyhoeddi prosesau newydd ar gyfer arolygu gofal cymdeithasol

Dydd Mawrth, 28 Ebrill] cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru y bydd y modd y mae gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu hadolygu a'u harolygu yn cael ei ddiwygio.
Datblygwyd y diwygiadau ar ôl ymgynghori'n eang ag awdurdodau lleol a darparwyr gofal cymdeithasol a'r nod yw gwella'r broses arolygu.

Mae'r fframwaith newydd yn pwysleisio mai'r awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am ansawdd eu gwasanaethau cymdeithasol ac am eu gwella.
Dyma brif elfennau'r system arolygu newydd:

- Bydd gofyn i awdurdodau lleol lunio cynllun gwella blynyddol ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol, a bydd rhaid iddynt roi adroddiad ar y modd y mae'r cynllun yn cael ei weithredu mewn adroddiad cyhoeddus blynyddol;
- Bydd AGGCC yn cynnal adolygiad ac yn dadansoddi'r dystiolaeth sydd wrth wraidd yr adroddiad blynyddol gan gynnwys tystiolaeth Oddi wrth arolygiaethau a rheoleiddwyr eraill;
- Bydd y dadansoddi'n esgor Gynllun Arolygu ac Adolygu unigol ar gyfer pob awdurdod;
- Bydd ymweliadau ag awdurdodau bob blwyddyn, rhai ohonynt ar ôl rhoi rhybudd a rhai'n ddirybudd.

Meddai Prif Arolygydd yr AGGCC, Rob Pickford:
'Mae'r trefniant newydd yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod rhai o'r bobl sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas yn cael y gofal a'r cymorth y mae arnyn nhw eu hangen. Mae'n parhau, felly, i roi pwyslais ar ddiogelu plant ac oedolion ac i hyrwyddo eu lles, eu datblygiad a'u hannibyniaeth.'
Caiff y fframwaith ei weithredu o fis Ebrill 2009 ymlaen. Bydd AGGCC yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol trwy gydol y broses weithredu.

GWNEUD FFILM - newid eich byd

Mae'r Co-operative yn galw ar wneuthurwyr ffilmiau ifanc sy'n breuddwydio am newid y byd i gyflwyno ceisiadau i'r gystadleuaeth bwysig ' Co-operative Young Film-Makers Festival.'

Mae gan bobl ifanc o dan 19 mlwydd oed, tan ddydd Gwener 26ain Mehefin i gael eu ceisiadau i mewn ar gyfer Gŵyl 2009 a gynhelir yn Amgueddfa Genedlaethol y Cyfryngau yn Bradford dydd Iau 8fed a dydd Gwener, 9fed Hydref.

Drwy ddrama neu raglen ddogfennol, animeiddiad neu gomedi, fideo cerddorol neu ffilm fud, gall gwneuthurwyr ffilmiau ddelio â materion sy'n bwysig iddynt megis newid yn yr hinsawdd, Masnach Deg, lles anifeiliaid neu fyw'n iach. Ar y llaw arall gellir gwneud ffilm am eu bywyd, cymuned neu brofiadau.

Ni ddylai'r ffilmiau fod yn hirach na chwe munud a didolir ac edrychir arnynt gan banel o bobl broffesiynol o'r cyfryngau a byd addysg. Bydd y gwneuthurwyr ffilmiau llwyddiannus yn cael gweld eu ffilm ar sgrin fawr mewn lleoliad cenedlaethol yn ogystal â chael cyfle i fynychu dosbarthiadau meistri gydag arbenigwyr ffilmiau, a derbyn adborth ar eu ffilm.

I lawr lwytho ffurflen gais, gwybodaeth a meini prawf ewch i'r wefan www.youngfilm-makers.coop

BRWDFRYDEDD DROS FYWYD

Bydd y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwenda Thomas AC, yn dangos ei 'brwdfrydedd dros fywyd' pan fydd yn ymweld â Sir Ddinbych ar Fai 18 i gefnogi'r cynllun Brwdfrydedd dros Fywyd sy'n cael ei arbrofi yn y sir.

Mae Brwdfrydedd dros Fywyd yn gynllun newydd cyffrous sydd wedi ei ddylunio i alluogi pobl hŷn i gael yr ansawdd bywyd gorau posib, a pheidio â gadael i'w hoed effeithio ar eu hannibyniaeth na'u bywyd.

Sir Ddinbych fydd y sir gyntaf yng Nghymru i arbrofi'r fenter hon a ddatblygwyd yn Sweden. Amcan swyddogol Brwdfrydedd dros Fywyd yw: "I annog pobl hŷn i fod yn gyfrifol am waith ataliol ar gyfer bywyd cyn gyfoethoced â chyn iached ag sydd bosib a hefyd i "ddod o hyd i negesyddion a all gyfathrebu gwybodaeth a dulliau a lledaenu syniadau".

Mae Sir Ddinbych yn arbrofi'r cynllun gan ganolbwyntio ar themâu Rhwydweithiau Cymdeithasol, Diet a Maethiad, Ymarfer, Diogelwch yn y Cartref a Chreadigrwydd a Thwf.

Caiff y cynllun ei ymarfer drwy 'gaffis bywyd', lle bydd pobl hŷn yn cyfarfod ac fe'u cyflwynir i ddulliau gwella syml a chânt gefnogaeth i gynllunio gwelliannau i ansawdd eu bywyd.

Am wybodaeth bellach ar Frwdfrydedd dros Fywyd, cysylltwch â Sandra Jones, Swyddog Datblygu Strategaeth Pobl Hŷn ar 01824 712900.

Mae'r ymgynghoriad ar y ddogfen "Cynllunio Iechyd Gwledig - gwella darpariaeth ar draws Cymru" wedi dechrau. Bydd yr ymgynghoriad yn rhedeg am 16 wythnos a gwelir y manylion ar y cyswllt canlynol: http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/ruralhealth/?lang=en

Cynhelir tri gweithdy ymgynghoriad rhanbarthol ddechrau mis Mehefin Gogledd Cymru : Dydd Iau 4 Mehefin 2009 Venue Cymru, Llandudno, 9:30 – 2pm;
Gorllewin Cymru: Dydd Gwener 5 Mehefin, Prifysgol Aberystwyth, 9:30am – 2pm;
De Cymru: Dydd Gwener 12 Mehefin, Pen y Bont ar Ogwr 9:30am – 2pm.
Os oes gennych ddiddordeb, e.bostiwch ruralhealth@wales.gsi.gov.uk

Ymgynghoriad Strategaeth Nyrsio Cymunedol i Gymru
Mae'r ddogfen hon yn gofyn am sylwadau ar y 43 o argymhellion sydd yn y strategaeth nyrsio cymunedol arfaethedig i Gymru. http://wales.gov.uk/consultations/healthsocialcare/community/?lang=cy Er mwyn rhoi cyfle i'r argymhellion a'r materion a godwyd gael eu trafod yn llawn caiff y cyfnod ymgynghori ei estyn i un wythnos ar bymtheg a daw i ben ar 19 Mehefin 2009.